LLYFRYN GWYBODAETH YSGOL

2011 - 2012

YSGOL GYNRADD CREIGIAU
CREIGIAU
CAERDYDD
CF15 9NN

Ffôn : 029 20891045
Ffacs : 029 20892639

E-✉ : schooladmin.@creigiauprm.cardiff.sch.uk
Gwefan : www.creigiauprm.cardiff.sch.uk

Pennaeth

Mr.Peter Evans, B.Add., Dip.Add., M.Add.

Dirprwy Bennaeth

Mrs. Delyth Kirkman, B.A. L.R.A.M.

Clerc i'r Llywodraethwyr
Mrs. Helen Terry, B.Sc.

Cadeirydd y Llywodraethwyr
Mrs. Hayley Dunne

Dirprwy Gadeirydd y Llywodraethwyr
Mrs. Tracy Veale

Cynnwys **Tudalen**

	Staff Dysgu	3 - 4
	Staff Sydd Ddim yn Dysgu	4 - 5
1.	Cyn Derbyn y Plant i'r Ysgol	6
2.	Derbyn y Plant i'r Ysgol	6
3.	Crynodeb o Ddatganiad Cwricwlwm yr Ysgol	6 -10
4.	Dyddiadau'r Tymhorau a'r Gwyliau	10 -11
5.	Amserau'r Ysgol	11
6.	Gofal Bugeiliol	11
7.	Gwisg Ysgol	12
8.	Iechyd a Diogelwch	12-13
9.	Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chynllun Mynediad i Bobl Anabl	13
10.	Meddyginiaethau	14
11.	Salwch neu Niwed	14
12.	Absenoldeb	14
13.	Cinio'r Ysgol	14
14.	Polisi Talu'r Ysgol	15
15.	Llaeth Ysgol	15
16.	Cysylltiadau rhwng y Cartref a'r Ysgol	15
17.	Pontio rhwng Addysg Gynradd ac Addysg Uwchradd	15
18.	Canlyniadau Asesu Cyfnodau Allweddol 1 a 2	16
19.	Caniatâd Rhieni i'r Disgyblion Ddefnyddio'r Rhyngrwyd	16
20.	Polisi a'r Gweithdrefnau Cwyno	16
21.	Cwynion	16
22.	Cael Gafael ar Wybodaeth Arall	16

Athrawon **Enwau (yn nhrefn yr wyddor)**	**Cyfrifoldeb**
Mr. L. Balbini, B.A.	Addysg Gorfforol Gwyddoniaeth
Miss B. Cridland, B.A.	Technoloeg Gwybodaeth Cymraeg fel Ail Iaith
Miss H. Davies, B.Add.	Asesu yn y Cyfnod Sylfaen Cynorthwyo gyda A.B.CH
Mrs. E. Dyfri Evans, B.Cerdd	Pennaeth Yr Adran Gymraeg Cerddoriaeth Cynorthwyo gyda Mathemateg
Mrs. Eleri Evans, B.A.	Addysg Grefyddol Cynorthwyo gydag Iaith
Ms. S. Griffin, B.A.(Add.)	Hanes Llyfrgell yr Adran Iau Saesneg
Mrs. G. Griffith B.A.(Add.)	Dylunio a Thechnoleg Cynorthwyo gyda Thechnoleg Gwybodaeth
Miss B. Harries, B.A. (Add.)	Anghenion Addysgol Arbennig Addysg Bersonol a Chymdeithasol
Mrs. C. Hurford, B.Add.	Daearyddiaeth Cynorthwyo gyda Gwyddoniaeth
Mrs. R. Hussey, B.A. (Add.)	Partneriaeth â Busnes Cynorthwyo gyda Dylunio a Thecholeg Pêl Rwyd
Mr. P. Ivins, B.D.S.	Pennaeth Yr Adran Saesneg Mathemateg Asesu a Dadansoddi Data
Mrs. D. Kirkman, B.A., L.R.A.M.	Dirprwy Bennaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus Cymraeg Iaith Gyntaf Mwyaf Abl a Thalentog
Mrs. Rh. Lynch, B.Cerdd.	Cynorthwyo gydag Anghenion Addysgol Arbennig Cynorthwyo Iaith
Mrs. K. Rees, B.A.	Celf Cynorthwyo gydag Anghenion Addysgol Arbennig

Mrs. L. Thomas, B. A.(Add.)	Y Cyfnod Sylfaen Cynorthwyo gyda Cherddoriaeth
Mrs. F. Willmott, B.A.	Saesneg Cynorthwyo gydag Addysg Gorfforol

Yr Athrawon a Gyflogwyd i Gyflenwi Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (C.P.A.) i Athrawon

Mrs. R. Downs, B.Add.	(0.3)	C.A.2 yn yr Adran Saesneg Cynorthwyo gyda Saesneg
Mrs. R. Lynch, B. Cerdd	(0.1) (0.1) (0.1)	C.S. yn yr Adran Saesneg C.S. yn yr Adran Gymraeg C.A.2 yn yr Adran Gymraeg
Miss S. Smith, B.A.	(0.3) (0.3) (0.2)	C.S yn yr Adran Gymraeg C.S. yn yr Adran Saesneg C.A.2 yn yr Adran Gymraeg Cynorthwyo gyda Hanes

Staff Sydd Ddim yn Dysgu

Cynorthwywraig i'r Athrawon	Mrs. K. Bowler, B.N. Ms. S. Cornwall Mrs. T. Cozens, NNEB Mrs. J. Good, B.Sc. Mrs. E. James, NVQ Mrs. C. Jones, B.Sc. Mrs. S. Jones, HND Miss S. Moore Miss L. Phillips, CACHE Mrs. A. Price Mrs. C. Roberts, NNEB Miss R. Smith, BTEC Mrs. S. Stone, B.A. Mrs. K. Tewkesbury, NNEB Mrs. A. Webb, B.A. Mrs. C. Wilkins, B.Sc., M.Sc. Mrs. J. Willis, BTEC
Staff y Swyddfa	Mr. D. Dawkins Mrs. I. Matthews Mrs. L. Reed, B.A. Mrs. H.Terry, B.Sc.
Gofalwr	Mr. P. Williams
Atgyweiriadau ***Cogyddes***	Mr. W. Davies Mrs. B. Brown

Cynorthwywraig y Gegin	Miss S. Haberfield Miss L. Laferla
Cynorthwywraig Ginio	Mrs. H. Bailey Mrs. L. Disbrey Mrs. S. Goodwin Mrs. A. Impey Mrs. J. Johnson Mrs. K. Powell Mrs. L. Rees Mrs. M.Thomas Mrs. M. Devine
Patrôl Croesi	Mr. J. Davies Mrs. A. Impey

Rhestr o`r prif talfyriadau :

A.A.A.	:	Anghenion Addysgol Arbennig
A.B.CH.	:	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
C.A.2	:	Cyfnod Allweddol 2 (Adran Iau gynt)
C.A.U.	:	Cynllun Addysgol Unigol
C.Ch.U.	:	Cynllun Chwarae Unigol
C.S.	:	Cyfnod Sylfaen (Babanod a Meithrin gynt)
H.M.S.	:	Hyfforddiant Mewn Swydd
M.A.T.	:	Mwyaf Abl a Thalentog

1. Cyn Derbyn y Plant i'r Ysgol

Mae'n bwysig bod y symud o'r cartref i'r ysgol yn llyfn ac yn ddidrafferth. Er mwyn hwyluso'r trosglwyddo rydym yn trefnu rhaglen o ymweliadau â'r ysgol ar gyfer y plant sy'n cychwyn fis Medi yn ystod Tymor yr Hâf cyn iddynt ddod atom.

Rhoddir Llyfryn Gwybodaeth ysgol a ffurlen mynediad i'r rhieni sy'n dymuno i'w plant fynychu'r ysgol. Ym mis Gorffennaf fe fydd cyfarfod i rieni'r plant sy'n dechrau ar eu haddysg amser-llawn ac ynddo bydd y Prifathro a Phennaeth yr Adran briodol yn rhoi amlinelliad o natur yr ysgol a'i pholisiau.

2. Derbyn y Plant i'r Ysgol

(a) Yr Adran Saesneg a'r Adran Gymraeg

Derbynnir y plant i'r ysgol ym mis Medi mewn grwpiau o chwech i wyth plentyn. Bydd y grŵp cyntaf yn dechrau Ddydd Mawrth, Medi 6ed, yr ail grŵp Ddydd Iau Medi 8fed, y trydydd grŵp Ddydd Mawrth, Medi 13eg a`r pedwerydd grŵp Ddydd Iau, Medi 15fed. Rhydd hyn gyfle i'r athrawes i roddi`r sylw personol hwnnw sydd mor hanfodol yr adeg yma. Fe all y rhieni ddod â'r plant

i mewn i'r cyntedd yn y bore nes eu bod wedi setlo'n hapus yn yr ysgol. Yn ddiweddarach yn y tymor byddwn yn annog y rhieni i ffarwelio â'r plant ar bwys un o fynedfeydd yr ysgol lle bydd aelod o staff yn bresennol.

(b) Y Feithrin

Rhan-amser yw'r Feithrin, h.y. sesiwn bore neu brynhawn bob yn ail wythnos. Mae uchafswm o 32 o lefydd ar gael yn yr Adran Gymraeg a'r un nifer yn yr Adran Saesneg. Byddwn yn derbyn y plant ym mis Medi mewn grwpiau ar draws cyfnod o bedair wythnos. Disgwylir i'r rhieni hebrwng a chasglu'r plant o glwyd Y Feithrinfa. Bydd y grŵp cyntaf yn dechrau Ddydd Mawrth, Medi 6ed, yr ail grŵp Ddydd Mawrth, Medi 13eg, y trydydd grŵp Ddydd Mawrth, Medi 20fed a`r pedwerydd grŵp Ddydd Mawrth, Medi 27ain.

3. Crynodeb o Ddatganiad Cwricwlwm yr Ysgol

(A) Amcanion

Fe all y disgyblion gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â dymuniadau'r rhieni. Yr un statws sydd i'r ddwy iaith, a rhoddir yr un pwysigrwydd i bob rhan o addysg o'r Adran Feithrin hyd at Flwyddyn 6. Mae'r staff a'r plant yn perthyn i un ysgol, ac er bod pob Adran yn cael ei dysgu gan athrawon a benodwyd i'r dasg honno, mae'r ysgol hon yn un gymuned heb un rhaniad ynddi. Dylai'r ysgol fod yn ficrocosm iachus a chywir o gymdeithas ddwyieithog a dylai chwarae rhan fywiog yn y gymuned y mae'n perthyn iddi.

Ein nod yw gwneud yr ysgol yn lle hapus a chyffrous lle bydd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus, a lle y cânt ddatblygu i'w heithaf eu deallusrwydd a'u teimladau, yn gymdeithasol, yn ysbrydol, yn gorfforol ac yn esthetaidd. Ein gobaith ni yw bod yr ysgol yn gymuned gariadus a chefnogol lle y bydd pob plentyn yn gwireddu'r posibiliadau hyn. O'r dechreuadau cadarn hyn gobeithiwn y byddant yn datblygu'n ddinasyddion hyderus, cyfrifol, ac ystyriol. Sylfeinir y cwricwlwm i blant dan 7 oed ar ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen. Ar gyfer gweddill yr ysgol, sef Cyfnodau Allweddol 2, y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 sy'n penderfynu llawer o gynnwys yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu. Un o amcanion yr ysgol yw cyflwyno'r gwaith hwn drwy amrywiaeth o ddulliau, a hynny mewn modd sydd yn ddeniadol i'r plant ac yn her iddynt. Dylai'r cwricwlwm:-

ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol plentyn a'i baratoi ar gyfer cyfleoedd, profiadau a chyfrifoldebau bywyd;

sicrhau darpariaeth eang a chytbwys i ddiwallu anghenion arbennig o bob math;

ddarparu cyfleoedd dysgu sy'n symbylu a herio pob plentyn yn ôl ei ddiddordeb, cymhwyster, profiad a brwdfrydedd;

ymgorffori egwyddorion sylfaenol y cwricwlwm Cymreig;

fod yn ymarferol i'r ysgol ei weithredu.

Mae rhai nodweddion sy'n arbennig i'r Cyfnod Sylfaen. Y saith maes dysgu ydy:

- Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- Sigiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- Datblygiad mathemategol
- Datblygu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad corfforol
- Datblygiad creadigol

Mae rhai nodweddion yn arbennig i G.A.2. Mae Cwricwlwm 2008 yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau ac ar:

- arfogi pob disgybl â'r craidd statudol mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth gan sicrhau fod pob disgybl yn meddu ar sgiliau cyfathrebu, rhifo a llythrennedd;

- sicrhau ehangder dysg yn y pynciau sylfaenol a bod y disgyblion yn datblygu'r gwahanol sgiliau meddyliol sy'n sail i'r cwricwlwm.

Bydd addysg y plant yn cynnwys :-

(a) Iaith : (Cymraeg a Saesneg yn yr Adran Iau Gymraeg a'r Adran Saesneg; Cymraeg yn y C.S. Cymraeg) : rhoddir y pwyslais priodol ar ddatblygiad medrau llafar (gwrando, gwylio a siarad), medrau darllen ac ysgrifennu.

(b) ***Mathemateg :*** y nod yw cyrraedd safon uchel mewn rhifyddeg a medrau mathemategol eraill a ddatblygwyd o'u gwybodaeth am Rif, Siâp, Gofod, Mesur a Thrin Data. Yna, dylai'r disgybl/plentyn ddefnyddio/gymhwyso'r medrau yn ddeallus a hyderus wrth ymgymryd â gweithgareddau ymarferol, bywyd go iawn ac ymchwiliol.

(c) Gwyddoniaeth **:** Lle bo hynny'n bosibl, datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am Wyddoniaeth trwy Ymchwiliadau Gwyddonol.

(ch) Technoleg Gwybodaeth: y nod yw datblygu gallu'r plant i drin offer Technoleg Gwybodaeth a'r meddalwedd yn hyderus a symud ymlaen i ddysgu am fathau sylfaenol o feddalwedd ac yna am becynnau penodol yn ymwneud â meysydd amrywiol y cwricwlwm.

(d) **Daearyddiaeth a Hanes :** bydd hyn yn ysgogi diddordeb y plant yn eu hamgylchedd, yn yr amrywiaeth o gyflyrau ffisegol a dynol a welir ar wyneb y Ddaear, ac yn meithrin ynddynt y gallu i ryfeddu wrth brydferthwch y byd o'u hamgylch. Fe fydd yn arwain y plant i ddeall y gorffennol a'i ddehongli a'u cynorthwyo i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hunaniaeth.

(dd) Dylunio a Thechnoleg : bydd y plant yn dysgu'r medrau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i weithredu'n effeithiol ac yn greadigol.

(e) Celf: caiff y plant brofiad o ddefnyddio nifer o gyfryngau. Cânt gyfle i ddefnyddio Celf fel ffordd o gyfathrebu a dysgu am weithiau artistiaid a chrefftwyr eraill.

(f) Cerddoriaeth : byddant yn gwrando ar gerddoriaeth, yn canu ac yn creu cerddoriaeth ag amrywiaeth o offerynnau.

(ff) Addysg Gorfforol : bydd y plant yn dysgu ymarferion sy'n gysylltiedig ag iechyd trwy amrywiaeth o fedrau symud a medrau sy'n berthnasol i gymnasteg a chwaraeon. Darperir gwersi nofio i Flynyddoedd 5 a 6.

(g) Cymraeg (Adran Saesneg) : mae Cymraeg yn cael ei ddysgu fel ail iaith trwy'r Adran Saesneg. Rhoddir y pwyslais pennaf ar siarad a gwrando, ond caiff plant eu hannog hefyd i ysgrifennu a darllen yr iaith.

(ng)Addysg Grefyddol : mae'n rhan anhepgor o'r cwricwlwm. Heblaw'r gwersi dosbarth a'r addoliad dyddiol, mae gan y plant ran yn paratoi a chyflwyno'r gwasanaeth boreol sy'n ymwneud ag agweddau moesol ac ysbrydol bywyd. Does dim cysylltiad gan yr ysgol ag unrhyw un enwad crefyddol arbennig. Darperir addysg grefyddol i bob disgybl ond esgusodir plant rhag mynychu'r addoliad dyddiol os dyna ddymuniad y rhieni. Bydd angen i'r ysgol dderbyn cais ysgrifenedig gan y rhieni cyn y gellir esgusodi'r plentyn.

(h) *Addysg Rhyw :* ystyriwn fod Addysg Rhyw yn rhan o addysg bersonol a chymdeithasol ac iechyd plentyn. Fe'i cyflwynir yn rhan o'r gwaith thema a wneir trwy'r ysgol. Mae'n cynnwys trafod materion megis gofalu am eraill, teimladau personol, cyfeillgarwch, cadw'n ddiogel ac yn iach, gwneud penderfyniadau, bywyd teuluol, a gofal dros y corff. Atebir cwestiynau'r plant yn onest ac â sensitifrwydd, gan gadw mewn cof eu hoedran, bob amser.

(i) Anghenion Addysgol Arbennig - Y Côd Ymarfer Diwygiedig
Cynhwysiant:
Dylai pob ysgol dderbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd wedi'u canfod yn barod, yn ogystal â chanfod disgyblion nad oeddent gynt wedi'u dynodi'n ddisgyblion ag A.A.A. a darparu ar eu cyfer.

Ni chaiff awdurdodau derbyn wrthod plentyn am eu bod yn teimlo na allant ddarparu ar gyfer ei anghenion addysgol arbennig.

Lle bo rhieni'n dymuno i'w plentyn sy'n destun datganiad gael addysg brif ffrwd, dim ond mewn lleiafrif bychan o achosion y dylid gwrthod hynny, sef os byddai cynnwys y plentyn yn anghydnaws â darparu addysg effeithiol ar gyfer plant eraill.

Y Côd:
1. Cyfathrebu a Rhyngweithio
2. Gwybyddiaeth a Dysgu
3. Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol
4. Synhwyraidd a/neu Gorfforol

Bydd cysylltiad rhwng llawer o'r meysydd hyn.

Y Camau:

- Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar
- Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy
- Gweithredu gan yr Ysgol
- Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

- ❖ Darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n destun Datganiad

Dylai gwahaniaethu yn y cwricwlwm fod ar gael i bob plentyn.

Gweithredu gan yr Ysgol:
Ymyrryd trwy gyfrwng Cynllun Addysgol Unigol

Dylai targedau fod yn rhai ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o Gwricwlwm gwahaniaethol arferol yr Ysgol, neu'n wahanol iddynt.

C.A.U.

- ❖ Hyd at 3 neu 4 o dargedau allweddol ychwanegol at y cwricwlwm gwahaniaethol.
- ❖ Dylent nodi strategaethau addysgu, dyddiadau adolygu a meini prawf llwyddiant.
- ❖ Mae C.A.U. i grwpiau yn dderbyniol ond bydd angen tystiolaeth unigol os bydd angen gweithredu pellach ar y plentyn.

(B) Trefniant: Nid yw'r dosbarthiadau wedi eu ffrydio, ond yn ystod rhan o bob dydd fe osodir y disgyblion mewn grwpiau yn unol â lefel eu datblygiad. Oherwydd y trefniadau staffio mae'n angenrheidiol fod plant o fwy nag un flwyddyn ysgol mewn rhai dosbarthiadau.

(C) Asesu: Mae'r rhan fwyaf o'r asesu'n digwydd yn ystod gweithgareddau arferol yr ystafell ddosbarth, rhai a gynlluniwyd yn unol â Rhaglenni Astudio a Thargedau Cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r asesu yn gymorth i'r athro/athrawes benderfynu i ba raddau mae'r addysg yn cwrdd ag anghenion y disgyblion a thrwy hyn yn galluogi pob disgybl i ddatblygu hyd at eithaf ei allu / gallu.

Hefyd, ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, caiff y plant eu hasesu gan yr athrawon yn y pynciau craidd fel y'u disgrifir yn y Gorchmynion Asesu priodol. Yn ystod y flwyddyn rhoddir profion safonol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 mewn Iaith a Mathemateg. Mae'r A.A.Ll. yn mynnu bod pob ysgol yn cwblhau 'Asesiad Sylfaen' ar gyfer plant oedran Derbyn a phrofion gwrthrychol ar gyfer plant Blynyddoedd 3 a 6 fel rhan o'u gweithdrefn casglu data 'Gwir Werth'. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio profion gwrthrychol ar gyfer plant Blynyddoedd 4 a 5. Mae'r holl ganlyniadau yma'n cael eu cofnodi'n electronig.

(CH) Gwaith Cartref : Mater i'r athro/athrawes dosbarth fydd penderfynu a ddylid rhoi gwaith cartref i'r disgyblion ai peidio. Gall y gwaith fod yn ddarllen, gorffen gwaith ysgol, sillafu neu dasg cartref arbennig. Gofynnir i rieni gwblhau'r llyfr 'Cofnod Darllen' a'u dychwelyd i'r ysgol ar y diwrnod penodedig.

(D) Datganiadau Polisi a Chynlluniau Gwaith : Maent ar gael ar gyfer pob ardal o'r Cwricwlwm ac fe'u hadolygir yn rheolaidd.

(DD) Cynllunio Gwaith : Cynllunir gwaith dosbarth dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Cynhyrchir rhaglen waith ar gyfer pob dosbarth ar ddechrau pob tymor. Mae rhaglen waith yn cynnwys pob agwedd o'r Cwricwlwm yn ogystal ag adran ar gyswllt â'r cartref. Cynhwysir nifer o'r agweddau o fewn thema. Cynhyrchir siart lif gan bob athro/athrawes ar gyfer ei thema. Cynhyrchir trosolwg o waith y tymor ar gyfer y thema a dosbarthir rhain i'r rhieni.

Mae aelodau o staff hefyd yn cynhyrchu cynllun gwaith wythnosol. Mae hwn yn ogystal â'r rhaglen dymhorol, yn cael ei weld gan y Prifathro a Phennaeth yr Adran berthnasol.

(E) Gweithgareddau (all gyrsiol) : Mae llawer o aelodau'r staff a rhieni yn rhoi o'u hamser hwy eu hunain i weithgareddau megis côr, drama, pêl rwyd, pêl droed, rygbi, criced, gweithgareddau'n ymwneud â'r Urdd, clwb rhedeg, clwb garddio a chlwb papur newydd.

Mae cwmni Cardiff & Vale Music Services yn cynnig gwersi trwmped, trombôn, sacsoffôn, clarinet, ffliwt, piano, telyn, drymiau, soddgrwth a gitâr yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol. Cynigir gwersi i ddisgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Dysgwylir i rieni dalu am yr hyfforddiant. Mae cost y gwersi'n dibynnu ar nifer y plant sydd mewn grwp. Mae modd benthyg offerynnau fesul tymor.

4. Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau 2011- 2012

Tymor	Dechrau'r Tymor	Dechrau Hanner Tymor	Diwedd Hanner Tymor	Diwedd y Tymor
Hydref 2011	Dydd Llun 05.09.11	Dydd Llun 24.10.11	Dydd Gwener 28.10.11	Dydd Mawrth 20.12.11
Gwanwyn 2012	Dydd Mawrth 03.01.12	Dydd Llun 13.02.12	Dydd Gwener 17.02.12	Dydd Iau 05.04.12
Haf 2012	Dydd Llun 23.04.12	Dydd Llun 04.06.12	Dydd Gwener 08.06.12	Dydd Gwener 20.07.12

Diwrnodau HMS: **Dydd Llun 5ed Medi 2011**
Dydd Mawrth 3ydd Ionawr 2012
Dydd Llun 23ain Ebrill 2012
Dydd Gwener 4ydd Mai 2012
Dydd Gwener 22ain Mehefin 2012
Dydd Iau 19eg Gorffennaf 2012
Dydd Gwener 20fed Gorffennaf 2012

Bydd yr ysgol ar gau **ddydd Llun 7fed Mai 2012** ar gyfer Gŵyl y Banc Calan Mai

5. Amserau'r Ysgol

Y Feithrinfa : 9.00 y.b. - 11.45 y.b.
12.45 y.p. - 3.30 y.p.

Cyfnod Sylfaen : 9.00 y.b. - 12.10 y.p.
(D, B1 a B2) 1.20 y.p. - 3.25 y.p.

Cyfnod Allweddol 2 : 9.00 y.b. - 12.10 y.p.
1.20 y.p. - 3.30 y.p.

Mae'n bwysig fod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol erbyn dechrau sesiwn. Bydd pedwar aelod o staff ar ddyletswydd ar yr iard o 8.50 y.b. Bydd un aelod o staff ar ddyletswydd wrth y glwyd ar waelod y llwybr llydan. Dylai plant yr Adran Saesneg sy'n defnyddio'r fynedfa yma gael eu trosglwyddo i ofal y staff wrth y glwyd.

Dylid trosglwyddo plant y Feithrin i ofal staff wrth glwyd y Feithrin.

Dylid trosglwyddo plant yr Adran Gymraeg i ofal staff wrth ddrws cyntedd y Cyfnod Sylfaen Cymraeg.

Felly dylai'r plant gyrraedd rhwng 8.50 y.b. a 9.00 y.b. Nid ydym yn gyfrifol am ddisgyblion sy'n cyrraedd cyn 8.50 y.b.

6. Gofal Bugeiliol

Rheolau a Disgyblaeth **:**

Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ofal bugeiliol y disgyblion sydd yn ei ddosbarth ef/dosbarth hi. Caiff yr holl athrawon gefnogaeth yr athrawes sy'n gofalu am yr Adran yn ogystal â chefnogaeth y Prifathro. Nod yr ysgol yw datblygu agwedd meddwl cadarnhaol yn seiliedig ar fynnu'n gadarn ond yn dawel fod y safonau ymddygiad yn uchel. Disgwylir i'r holl ddisgyblion ymddwyn mewn modd cyfrifol tuag atynt hwy eu hunain a thuag at eraill, ac eiddo. Disgwylir i'r rhieni gefnogi rheolau'r ysgol a welir wedi eu rhestru isod:

(1) Trin pobl eraill fel hoffech chi gael eich trin

(2) Gwneud eich gorau yn eich gwaith ysgol ac yng ngweithgareddau'r ysgol

(3) Bod yn gwrtais at eraill bob amser

(4) Peidio â rhedeg yn yr ysgol nac ar y llwybrau

(5) Ceisio rhoi cymaint o help ag sy'n bosibl i eraill

(6) Parchu llyfrau, offer a chyfarpar

(7) Cadw'r ysgol yn daclus ac yn rhydd o sbwriel

(8) Codi'ch llaw pan fyddwch am ateb neu ofyn cwestiwn.

7. Gwisg Ysgol

Nid yw'r wisg yn orfodol ond rydym yn gobeithio y bydd pob disgybl yn ei wisgo, oherwydd:

(a) ei bod yn rhatach na dillad ffasiynol ac yn arbed cystadleuaeth rhwng disgyblion;

(b) mae'n ychwanegu at y teimlad o fod yn perthyn i'r ysgol ac o fod yn rhan ohoni.

Amgaeaf restr o'r wisg a werthir gan J. M. Textiles. Mae rhai o'r eitemau hyn ar gael mewn siopau eraill.

O.N. Mae J. M. Textiles yn gwerthu'r wisg yn y neuadd yn ystod y nosweithiau agored.

Addysg Gorfforol: Dapiau, siorts du, crys-T gwyn

Chwaraeon: Y wisg briodol ar gyfer pêl-droed a phêl rwyd. Fe wna treineri siorts, a chrysau-T y tro ar gyfer chwaraeon ac athletau Tymor yr Haf.

Dylid cario pob gwisg i'r ysgol mewn bag ag enw'r plentyn i'w weld yn glir arno. Gofynnir i'r rhieni ddefnyddio'r bagiau lleiaf posibl gan nad oes lle i storio bagiau mawr. Os yw plentyn i'w hesgusodi o wers Addysg Gorfforol neu Chwaraeon oherwydd salwch a.y.b. gofynnir am nodyn ysgrifenedig oddi wrth y rhieni i'r athro dosbarth.

O.N. Gofynnwn i chi ofalu bod enw'ch plentyn ar bob eitem o'i wisg bersonol.

8. Iechyd a Diogelwch

(a) Derbyniwyd cwynion fod parcio ceir anghyfrifol ac anghyfreithlon yn digwydd ar ddyddiau ysgol yn ystod amserau prysur a phan bydd digwyddiadau arbennig. Mae hyn nid yn unig yn rhoi ***eich plentyn*** mewn perygl, ond hefyd yn achosi anghyfleustra a phryder i drigolion lleol. Enghreifftiau o'r math o barcio yw:-

- Parcio ceir ar ddwy ochr y stryd gan achosi tagfa
- Parcio a gyrru ceir ar y palmant
- Parcio ceir ar draws mynediadau i gartrefi trigolion
- Parcio ceir ar y cyffyrdd o gwmpas yr ysgol

Er mwyn llwyddo i gyrraedd ein hamcanion bydd Swyddogion Heddlu De Cymru a Wardeiniaid Traffig, pan fo angen, yn gorfodi'r gyfraith yn erbyn troseddwyr, er mwyn sicrhau diogelwch ein plant.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu menter y sir 'Parcio'n Ddiogel, Cerdded yn Ddiogel'. Mae hyn yn annog rhieni i barcio cyn bellter i ffwrdd o'r ysgol, ac yna cerdded gyda'u plant i'r ysgol sy'n lleihau tagfeydd a'r posibilrwydd o ddamweiniau.

(b) Casglu plant Y Cyfnod Sylfaen ar Ddiwedd y Diwrnod Ysgol

(1) Ni ddylai'r un rhiant/warchodwr fod ar dir yr ysgol cyn 3.20 y.p. (Defnyddir yr iard ar gyfer chwaraeon).

(2) Yr Adran Saesneg: dylai'r rhieni gasglu'u plant tu allan i'w ddosbarthiadau perthnasol.
Yr Adran Gymraeg: dylai'r rhieni gasglu'u plant o'r ardal tu allan i'r brif fynedfa.

(3) Ni ddylid gadael i blant ifanc chwarae ar y gwair, na chrwydro ar y iard nac i'r ystafelloedd dosbarth. (Cofiwch bod plant C.A.2 yn gweithio tan 3.30 y.p.)

(4) Os oes gennych fwy nag un plentyn yn y Cyfnod Sylfaen, arhoswch y tu allan i ystafell y plentyn ieuengaf. Anfonir y plentyn hynaf atoch.

(5) Wedi casglu'r plentyn/plant dylai'r rhiant/warchodwr adael yr iard yn syth**.** (Byddwch gystal â gofalu nad yw'r plant yn chwarae/crwydro ar y iard nac ar y gwair wrth adael).

(c) Casglu Plant Meithrin ar Ddiwedd y Diwrnod Ysgol
Fel yr uchod, ond dylid casglu plant y tu allan i'r Adran Feithrin ac ni ddylai'r rhieni gyrraedd cyn 3.25 y.p.

(ch) Dylid casglu plant C.A.2 ger y glwyd i`r maes parcio

(d) Am resymau sy'n ymwneud â diogelwch y plant, h.y. ceir, a faniau yn dod i mewn i'r maes parcio, gofynnir i rieni sicrhau bod eu plant yn dod i mewn i'r ysgol trwy'r gatiau bach ac yn cadw at y llwybrau gan ddilyn yr olion traed melyn. **NI ddylent groesi ar bwys y gatiau mawr a cherdded i lawr y llwybr llydan.**

Ar ddiwedd y diwrnod ysgol gall rieni y Cyfnod Sylfaen Saesneg gerdded gyda'u plant ar y llwybr llydan a chroesi ar bwys y gatiau mawr. Bydd y gatiau hyn ar gau rhwng 3.20 a 3.35 y.p.

Dylai plant C.A.2 Saesneg adael yr ysgol yr un ffordd ag y daethant i mewn gan ddilyn yr olion traed melyn o gwmpas y maes parcio.
Dylai'r Adran Gymraeg a'r Feithrin hefyd gerdded i fyny'r llwybr gan ddilyn yr olion traed.

Ni ddylai unrhyw blentyn fyth groesi'r maes parcio, dringo'r coed na sathru'r planhigion.

Gofynnir yn garedig i rieni'r Cyfnod Sylfaen adael tir yr ysgol cyn y tagfeydd am 3.30 y.p. pan fydd plant y C.A.2 yn gadael.

(dd) Dylai pob ymwelydd ddod i'r dderbynfa. Mae hyn yn cynnwys y rhieni sy'n dod i'r ysgol rhwng 9.00 y.b. a 3.20 y.p.

(e) Ni chaniateir ysmygu ar dir yr ysgol.

9. Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae`r ddeddf yn cynnwys materion yn ymwneud ag anabledd, oedran a.y.b. Mae'r cynlluniau uchod ar gael ar wefan yr ysgol: www.creigiauprm.cardiff.sch.uk

10. Meddyginiaethau

Yn gyffredinol, gartref y dylid rhoi meddyginiaethau i blant. Ond mae'r athrawon yn fodlon gwneud hynny mewn amgylchiadau eithriadol os cânt eu hawdurdodi mewn llythyr oddi wrth riant. Dylid rhoi pob meddyginiaeth i'r athro i'w gadw.
Nid yw athrawon yn gyfrifol am sicrhau bod plentyn yn cymryd ei f/meddyginiaeth.

11. Salwch neu Niwed

Dylai'r rhieni sichrau fod gan yr ysgol **dri** rhif ffôn cyswllt brys ar ffurflen dderbyn y plentyn fel ei bod hi'n bosibl cysylltu â rhiant neu oedolyn a enwebwyd ganddynt os bydd plentyn yn sâl neu wedi cael niwed. Pan fydd yr ysgol yn methu â chysylltu, gofalir am y plentyn yn yr ysgol, ac os bydd rhaid, fe elwir am wasanaeth meddygol proffesiynol.

12. Absenoldeb

Dylai'r rhieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon (rhwng 8.50 y.b. a 9.00 y.b.). Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol arnom i nodi y plant sy'n gyson hwyr i'r ysgol. Ychydig iawn o blant sy'n absennol heb ganiatâd, ac mae'r presenoldeb wythnosol ar gyfartaledd tua 95%.

Gofynnir i'r rhieni anfon nodyn i'r athro dosbarth yn rhoi'r rheswm dros absenoldeb plentyn pan fydd yn ail-ddechrau yn yr ysgol, e.e. salwch, ymweld â'r deintydd, a.y.b. Gofynnir i rieni'r plant hynny sy'n mynd adref i ginio ac sy'n absennol yn y prynhawn roi gwybod am hyn i'r ysgol rhag ofn i rywbeth ddigwydd i'r plentyn rhwng y cartref a'r ysgol.

13. Cinio'r Ysgol

Darperir cinio twym neu 'fwyd iachus' am £1.80 y dydd. Dylid talu am y cinio ar Ddydd Llun (neu ar ddechrau'r wythnos ysgol os bydd yn dechrau ar ddiwrnod heblaw dydd Llun). Yn ddelfrydol, fe ofynnwn ichi dalu bob hanner tymor gyda siec (yn daladwy i **Cyngor Sir Caerdydd**) ar ôl i chi dderbyn nodyn ymlaen llaw i ddweud wrthych faint i dalu. Os nad yw'r drefn hon yn bosibl, fe gymerwn siec neu arian parod yn wythnosol.

Os byddwch yn talu am ginio mwy nag un plentyn, gallwch ddefnyddio un siec, ond a wnewch ysgrifennu ar gefn y siec enw pob plentyn, eu dosbarthiadau, a'r dyddiau y byddant yn cael cinio. Does dim rhaid talu am ginio na chaiff ei fwyta oherwydd absenoldeb (e.e. teithiau neu afiechyd). Rhoddwn wybod i chi faint o arian cinio fydd gennych mewn llaw ddiwedd bob hanner tymor a dylid ***tynnu'r*** swm hwnnw oddi ar dâl yr hanner tymor canlynol. Os derbyniwch nodyn sy'n dangos fod arnoch arian cinio, yna ***ychwanegwch*** y swm hwnnw at dâl yr hanner tymor canlynol.

Mae'n holl bwysig felly fod eich plentyn yn gwybod pa bryd y mae ef/hi yn cael cinio ysgol fel bo'r cofnod yn y gofrestr yn gywir.

(D.S. Dylid gwneud pob siec arall yn daladwy i'r ysgol, e.e. sieciau i dalu am dripiau a drefnir gan yr ysgol).

14. Polisi Talu'r Ysgol

Gofynnir am gyfraniad gwirfoddol gan rieni i gwrdd â chostau ymweliadau a gweithgareddau arbennig y bydd yr ysgol yn eu trefnu. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw weithgaredd na fu digon o ymateb neu gefnogaeth iddo.

15. Llaeth Ysgol

Mae llaeth ysgol ar gael yn rhad ac am ddim i holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

16. Cysylltiadau rhwng y Cartref a'r Ysgol

Gall yr ysgol anfon e-byst a negeseuon testun gan ddefnyddio'r technoleg diweddaraf ar 'Teachers 2 Parents'. Mae gwefan yr ysgol yn ffordd ddefnyddiol o gyfathrebu hefyd. Bydd yr ysgol yn ymateb i unrhyw e-byst cyn gynted â phosibl ac adolygir hyn yn rheolaidd.

Cynhelir tair noson rieni bob blwyddyn, yn ystod misoedd Tachwedd, Mawrth/Ebrill a Gorffennaf. Trefnir y nosweithiau agored trwy system apwyntiadau. Mewn amgylchiadau arbennig gall rhieni drefnu i weld athro unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ysgol. Anfonir un adroddiad ysgrifenedig ar waith pob plentyn i'w gartref ym Mis Gorffennaf bob blwyddyn. Gwahoddir y rhieni i gymaint o weithgareddau yr ysgol ag sy'n bosibl, fel y Cyngerdd Nadolig a Mabolgampau'r Ysgol.

Mae gan Gyfeillion yr Ysgol dudalen ar wefan yr ysgol hefyd ar gyfer manylion pellach.

Rydym yn ffodus fod gennym Gymdeithas Cyfeillion yr Ysgol sy'n gefnogol iawn i ni. Prynwyd llawer o eitemau yn cynnwys llwyfan symudol, cyfarpar clyweled, llyfrau, offer chwaraeon, meinciau i'r plant, ardal chwarae ddiogel, a.y.b. Trefnir nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys disgos i'r disgyblion.

Caiff rhieni sydd â diddordeb mewn gweithio'n wirfoddol yn yr ysgol, bob cefnogaeth i wneud hynny. Maent yn gweitho gyda grwpiau bach o blant yn yr ystafell ddosbarth neu'r ardaloedd gweithgarwch ochr yn ochr â'r athro. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, yn gwrando ar blant yn darllen, a.y.b. Byddai'n dda gan Benaethiaid yr Adrannau glywed oddi wrth rieni sy'n gallu cynnig cymorth rheolaidd.

Erbyn hyn mae'n ofynnol i bob ysgol gael Cytundeb Ysgol a'r Cartref wedi'i lofnodi gan yr ysgol, y rhieni a'r plant (gweler Atodiadau).

17. Pontio rhwng Addysg Gynradd ac Addysg Uwchradd

Mae plant yr Adran Gymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Plasmawr yn unarddeg oed. I Ysgol Gyfun Radur y trosglwyddir plant yr Adran Saesneg. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y symud o un ysgol i'r llall mor esmwyth â phosibl. Mae'r plant yn ymweld â'r ysgol briodol yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau staff y ddwy ysgol yn ymweld â ni yn ystod y flwyddyn i sgwrsio â'r plant ac i ateb unrhyw gwestiynau a fydd ganddynt. Mae'r Prifathro a'r staff yn ymweld â'r ddwy ysgol uwchradd yn rheolaidd i drafod datblygaid y cwricwlwm ac unrhyw bynciau eraill a fydd o gymorth i'r plant setlo i lawr yn hapus yn eu hysgolion newydd.

O.N. Ni ellir sicrhau lle yn Ysgolion Gyfun Plasmawr a Radur i blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

18. Canlyniadau Asesiadau Cyfnod Allweddol 1 & 2 *(Anfonir copi caled i'r rhieni)*

19. Caniatâd Rhieni i'r Disgyblion Ddefnyddio'r Rhyngrwyd

Os na fyddwn yn clywed i'r gwrthwyneb, byddwn yn derbyn bod y rhieni yn cytuno i'w plentyn / plant:

- ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn gyfrifol yn ôl Polisi'r Ysgol

- ❖ gael eu gwaith i`w gyhoeddi ar wefan yr ysgol

- ❖ gael eu lluniau ar y wefan (fyddwn ni ddim yn defnyddio enwau llawn y plant)

20. Polisi a'r Gweithdrefnau Cwyno

Mae'r llywodraethwyr wedi derbyn y Polisi a'r Gweithdrefnau Cwyno fel y'u nodir yn Llawlyfr Adnoddau Dynol i Ysgolion y Cyngor Sir.

21. Cwynion

Dylid gwneud unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ysgol i'r Pennaeth i ddechrau. Datrysir y mwyafrif helaeth o gwynion mewn modd cyfeillgar ac anffurfiol gan ddefnyddio'r dull hwn. Gall rhieni sy'n teimlo nad ymdriniodd y Pennaeth yn ddiogonol â'u cwynion ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr gyda'u cwyn gan ddefnyddio'r broses ffurfiol. Mae'r weithdrefn lawn ar gael gan yr ysgol pan wneir cais amdani. Gellir gwneud mân gwynion yn uniongyrchol i'r athro dosbarth neu i Bennaeth yr Adran.

22. Cael Gafael ar Wybodaeth Arall

Mae'n ofynnol fod yr ysgol yn trefnu bod y dogfennau canlynol ar gael ar unrhyw adeg rhesymol ar gyfer llywodraethwyr, rhieni, ac unrhyw un arall sy'n dymuno eu gweld:-

(1) Datganiad cwricwlwm yr Awurdod Lleol

(2) Datganiad o nodau cwricwlwm y Corff Llywodraethol

(3) Gorchmynion statudol, cylchlythrau, a chofnodion a anfonwyd i'r ysgol gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru

(4) Adroddiadau ESTYN sy'n cyfeirio at yr ysgol

(5) Y cynlluniau gwaith a'r meysydd llafur a ddefnyddir yn yr ysgol sydd yn dangos sut mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei gynnig i'r plant

(6) Copi o drefniadau'r Awdurdod Lleol ynghylch delio â chwynion am gwricwlwm yr ysgol

(7) Maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd gan yr Awrdurdod Lleol

(8) Adrodddiad blynyddol diweddaraf y Corff Llywodraethol i Rieni

(9) Polisïau sy'n berthnasol i 'Addysg Iechyd ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol' y plant.

Mae nifer o'r uchod ar gael ar ein gwefan.

Codir tâl os bydd angen dyblygu'r dogfennau hyn. Ni fydd y tâl yn fwy na chost darparu'r copi.